

Os hoffech chi roi hysbyseb yng nghylchlythyr Dolwyddelan cysylltwch â'r pafiliwn gan ddefnyddio un o'r rhifau neu'r cyfeiriad e-bost ar y dudalen flaen.

## LET'S CONNECT ELECTRICAL

Helo, **Simon** ydw i, eich trydanwr lleol. Dw i'n wreiddiol o Bath ac wedi imi astudio am 3 blynedd ym Mhrifysgol Sussex fe wnes i symud i Fryste llu bûm yn byw am 20 mlynedd. Bu imi a fy ngwraig ddod ar wyliau i Ogledd Cymru yn rheolaidd ac fe benderfynon ni symud o'r ddinas fawr ac ymgartrefu yma yn Nolwyddelan yng nghanol mynyddoedd godidog Eryri.

Cefais fy magu ymysg y diwydiant adeiladu gyda bod fy nhaid yn drydanwr a fy nhad yn adeiladwr cyffredinol ond fe benderfynais i astudio Cemeg yn y Brifysgol. Yna, bûm yn gweithio yn y diwydiant plastig am 20 mlynedd cyn penderfynu dychwelyd at fy ngwreiddiau a dilyn camre fy nhaid drwy gymhwyso fel trydanwr.

Bu imi ddechrau fy nghwmni fy hun, **Let's Connect Electrical**, ym Mryste yn 2006 a bu imi lwyddo i ail-sefydlu'r cwmni yma yng Ngogledd Cymru yn ystod y 4 mlynedd diwethaf. Rwyf hefyd yn aelod o NAPIT sy'n caniatáu imi wneud gwaith mewn cartrefi ac adeiladau masnachol. Hefyd, gan fy mod yn dal tystysgrif 'Part P', mae'n gofalu fod fy ngwaith yn cydymffurfio gyda rheoliadau 'Part P' yr adeilad.

Yn ystod wythnos arferol o waith, baswn i'n ailwifro hen fythynnod, gosod systemau gwresogi newydd mewn eglwysi, gosod cawodau trydanol mewn ystafelloedd ymolchi, gosod goleuadau argyfwng mewn ysgolion neu ddod o hyd i wallau pan fo goleuadau pobl yn diffodd. Hefyd, fel rhan o fy ngwaith, rydw i'n cydweithio gyda nifer o adeiladwyr lleol yn dylunio a gosod systemau trydanol ar sail cynlluniau penseiri.

... a beth am pan na fydda i'n gweithio? Rydw i'n mwynhau mynd am dro gyda fy ngwraig Vicky ac ein ci Marti y Llamgi (Springer Spaniel). Rydw i hefyd yn rhedwr brwd ac yn aml yn rhedeg ar hyd llwybrau coedwigoedd ac yn cymryd rhan mewn digwyddiadau yn yr ardal fel Ras y Cob blynyddol, Ras Bangor 10k a hanner marathon Conwy.



**Am gyngor neu i dderbyn dyfynbris am ddim cysylltwch gyda mi ar y ffôn, ar e-bost neu dewch o hyd inni ar Facebook. (Manylion cyswllt yn ein hysbysebion ar y tudalennau canol).**